



Cynllun Hygyrchedd

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu
Date Approved and Review Date

*Gweler Cynllun Adolygu Polisiau
See Policy Review Timetable*

YSGOL DYFFRYN CONWY – CYNLLUN MYNEDIAD

Mae Ysgol Dyffryn Conwy yn gwbl ymwybodol o'i dyletswyddau yn unol â'r Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (a ddaeth i rym ym Medi 2002) a chod ymarfer y comisiwn Hawliau Pobl Anabl (2002).

NOD AC AMCANION

Mae Ysgol Dyffryn Conwy wedi ymroi i sicrhau bod pobl anabl yn gallu cael mynediad i addysg o'r safon uchaf yn ôl eu hawl a'u hanghenion:

- Ochr yn ochr â'u cyfoedion heb unrhyw wahaniaethu annheg.
- Gyda mynediad i'r cwricwlwm cyfan

Mae holl adeiladau newydd a'r rhai a gedwir gan Ysgol Dyffryn Conwy wedi eu hadeiladu ac wedi eu haddasu yn ôl manyleb y gofynion perfformio (a welir isod) er mwyn darparu mynediad rhesymol i bersonau anabl.

- Rhaid i'r contractwr gydymffurfio gyda Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a Rheol Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Gwasanaethau a Lleoliadau)1996 a'r dogfennau perthnasol – Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 20/97.
- Atgoffir y contractwr fod y ddeddfwriaeth a nodir yn y paragraff uchod yn berthnasol i'r adeiladau a'r adnoddau sydd yno'n barod yn ogystal ag adeiladau newydd (h.y. Adran (Bloc) A, B, D ac E)
- Yn ogystal â hyn bydd gosodiadau a ffitiadau i ofod hyd at o leiaf 2 ddisgybl ym mhob gofod adnoddau (llyfrgell ac ardal adnoddau, yn cynnwys adnoddau TG) a byddant yn cael eu haddasu ym mhob pwnc ar gyfer eu defnyddio gan ddisgyblion ag anghenion dysgu arbennig, gan gynnwys anawsterau corfforol.

Bydd y contractwr yn adolygu Datganiad y Polisiâu Iechyd a Diogelwch a'r Asesiad Risg mewn perthynas ag adeiladau ac adnoddau dan drefn reolaidd fel y bydd newid neu ychwanegiad mewn deddfwriaeth. Bydd y contractwr yn diweddarau hyn ac yn cyflwyno copiâu i'r Cyngor.

Mae Ysgol Dyffryn Conwy hefyd wedi ymrwmo i fynd i'r afael ag unrhyw newidiadau o fewn rheswm i sicrhau mynediad at addysg i bersonau ac anabledd yng ngoleuni deddfwriaeth newydd neu ddeddfwriaeth ychwanegol.

Drwy gyfrwng y cwricwlwm ac amgylchedd yr ysgol, bydd disgyblion yn cael eu haddysgu i werthfawrogi amrywiaeth a deall sut gall anghydraddoldeb effeithio ar fywydau pobl anabl. Bydd agwedd ysgol gyfan tuag at gyfleoedd cyfartal yn galluogi disgyblion i ddatblygu fel myfyrwyr actif a chyfrifol sy'n ystyriol tuag at eraill.

Prif flaenoriaethau'r cynllun.

- Cynyddu gallu'r disgyblion i gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol. Bydd hyn yn cynnwys addysgu a dysgu ffurfiol a bydd yn ychwanegol at weithgareddau allgyrsiol ychwanegol fel clybiau a chymdeithasau, gweithgareddau hamdden ac ymweliadau.
- Gwella amgylchedd corfforol yr ysgol er mwyn sicrhau y gall disgyblion anabl gymryd mantais lawn o'r addysg a'r gwasanaethau cysylltiedig a ddarperir. Byddai hyn yn cynnwys newidiadau i'r adeilad, yr offer a threfniant yr ysgol.
- Gwella trosglwyddo i ddisgyblion a chanddynt anabledd y wybodaeth a ddarperir i ddisgyblion nad ydynt yn anabl.

Mae'n angenrheidiol bod cynllun mynediad yr ysgol yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn ôl yr angen.

	Targedau	Strategaethau	Canlyniad	Ffrâm Amser	Goliau a gyflawnwyd
Mynediad ffisegol.	Adeiladau ac amgylchedd yr ysgol i gydymffurfio â'r deddfwriaethau Iechyd a Diogelwch a DDA presennol.	Trafodaethau mewn Cyfarfodydd Misol i Adolygu Gwasanaeth gyda Sodexo a swyddogion yr AALI.	Sicrhau fod yr holl adeiladau yn gwbl unol â dogfennau perthnasol presennol.	Parhaus	Mynediad corfforol i'r ysgol yn gwbl unol â'r ddeddfwriaeth.
	Lifftiau ym mhob bloc ac ym mhob ardal yn hygyrch i bersonau anabl.	Sodexo i sicrhau fod pob lifft yn cael gwasanaeth cyson yn ôl gofyn y contract.	Sicrhau fod lifftiau mewn cyflwr gweithio'n dda bob amser.	Parhaus	Mynediad corfforol i'r ysgol wedi gwella.
	Sicrhau mynediad hawdd i gadeiriau olwyn	Pob mynediad, drws a chanllaw yn ateb gofyn deddfwriaeth gyfredol Iechyd a Diogelwch a DDA	Mynediad i bob ardal wedi ei ddarparu	Wedi ei gwblhau	Mynediad corfforol i'r ysgol wedi gwella.
	Llefydd parcio ar gyfer yr anabl.	Gofodau parcio anabl a palmant wedi ei ostwng wedi ei ddarparu	Mynediad i le parcio wedi ei ddarparu.	Wedi ei gwblhau	Mynediad corfforol i'r ysgol wedi gwella.
	Gwneud arolwg pan fydd disgybl ac anabled penodol yn dod i mewn.	Asesu anghenion y disgybl drwy drafodaeth gyda'r disgybl, rhieni a'r AALI	Disgybl yn medru cael mynediad i'r Ysgol	Parhaus.	Llefydd parcio wedi eu cwblhau.
	Gweithdrefnau argyfwng tân	Llunio cynllun personol ar gyfer gadael yr adeilad i bob disgybl sydd â symudedd is o ganlyniad i broblemau corfforol neu broblemau clywed/gweld. Asesiad Risg wedi ei gwblhau gan Iechyd a Diogelwch Corfforaethol mewn cyswllt â Sodexo i ddarparu mynediad i ddefnyddio lifftiau penodol i bersonau anabl fynd allan mewn argyfwng.	Disgyblion yn medru gadael yn ddiogel mewn argyfwng.	Parhaus	Mynediad corfforol i'r ysgol wedi gwella.
	Mynediad hawdd ar gyfer disgyblion sydd yn	Sodexo i beintio ymyl palmentydd penodol ac ymyl	Personau rhannol ddall â mwy o	Parhaus	Mynediad corfforol i'r ysgol yn cael ei wella.

	rhannol ddall	llwybrau penodol yn felyn.	ymwybyddiaeth o leoliad ymyl palmant a llwybrau.		
	Cyfarpar ar gyfer disgyblion sydd yn drwm eu clyw a'r rhai sy'n fyddar.	Cyfarpar i bobl a nam ar eu clyw wedi ei leoli ym mhrif neuadd yr ysgol. .	Cyfarpar wedi ei ddarparu yn neuadd yr ysgol	Parhaus	Mynediad corfforol i'r ysgol yn cael ei wella.
Mynediad cwricwlwm	Mae gan yr holl staff hyfforddiant angenrheidiol i addysgu a chefnogi disgyblion ag amrywiaeth o anableddau.	Sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant ac arweiniad.	Staff yn deall anghenion y disgyblion anabl.	Parhaus.	
	Gwersi'n darparu cyfleoedd i'r holl ddisgyblion gyflawni h.y. maent yn gwahaniaethu ac yn cynnwys gwaith gan unigolion, paru, grwpiau bach a'r dosbarth cyfan yn ôl yr angen.	Holl wersi'n cael eu cynllunio gyda gweithgareddau gwahaniaethol. Arweiniad gan y cydlynnydd ADY.	Disgyblion yn gallu cael mynediad i'r Cwricwlwm Cenedlaethol	Parhaus	Cynnydd yn y mynediad i'r Cwricwlwm Cenedlaethol
	Staff yn cydnabod ac yn cynllunio ar gyfer yr amser a'r ymdrech ychwanegol sydd ei angen ar rai disgyblion anabl a disgyblion gydag anawsterau dysgu.	Staff yn cael gwybodaeth am ddisgyblion unigol.	Disgyblion yn medru cyflawni gwaith a ddisgwyllir ganddynt.	Parhaus	Disgyblion yn medru gwneud eu gorau mewn gwersi er gwaethaf eu anawsterau anabledd/dysgu.
	Gwneud addasiadau/trefniadau rhesymol o ganiatáu mynediad i asesiad ar gyfer ymgeiswyr anabl ac ymgeiswyr ag anawsterau dysgu.	Staff, ALNCO a'r Swyddog Arholiadau i ymgyfarwyddo eu hunain gyda Dogfennaeth Trefniadau Mynediad ac Addasiad Rhesymol JCQ.	Ymgeiswyr yn cael mynediad llawn i asesiad a'u hanghenion yn cael eu rheoli'n effeithiol	Parhaus	Disgyblion yn gallu gwneud eu gorau mewn asesiadau er gwaethaf eu hanabledd/ anawsterau dysgu
	Sicrhau bod staff yn gwbl ymwybodol o'r angen i	Rhoddir gwybodaeth i staff	Pob disgybl yn cael mynd ar deithiau	Parhaus	Pob disgybl a chydaddoldeb o ran profiadau.

	sicrhau bod teithiau addysgol ar gael i'r holl ddisgyblion beth bynnag yw eu gallu corfforol neu anghenion arbennig.		ysgol.		
	Yr holl ddisgyblion yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau cerddoriaeth, drama a gweithgareddau corfforol.	Sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael mynediad i bob rhan o'r cwricwlwm.	Yr holl ddisgyblion i gymryd rhan mewn gwersi wedi'u hamserlennu a gwersi cwricwlaidd ychwanegol a digwyddiadau.	Parhaus	Addysg gyflawn i ddisgyblion.
	Dosbarthiadau a llefydd eraill yn cael eu trefnu'n optimaidd ar gyfer disgyblion anabl.	Pob ardal wedi ei threfnu er mwyn sicrhau mynediad ar gyfer cadeiriau olwyn gan sicrhau bod y dosbarth yn addas ar gyfer disgyblion anabl.	Disgyblion yn gallu cael mynediad i bob rhan o'r ystafell ddosbarth.	Parhaus	Disgyblion yn gallu cymryd rhan lawn ym mhob dosbarth.
Mynediad i wybodaeth	Staff yn gyfarwydd â thechnoleg ac arferion er mwyn cynorthwyo disgyblion, rhieni a gofalwyr ag anableddau e.e. sut i siarad â dysgwr sydd â nam ar y clyw.	Sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant ac arweiniad.	Staff yn ymwybodol o anghenion disgyblion anabl.	Parhaus.	Cyfathrebu effeithiol.
	Yr ysgol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd hawdd ei defnyddio mewn gwersi a chyfarfodydd rhieni e.e. drwy ddarllen allan yn uchel, defnyddio taflunwyr/cyflwyniadau PowerPoint ac ati.	Sicrhau bod gan yr holl ddosbarthiadau fyrddau gwyn a byrddau gwyn rhyngweithiol. Sicrhau hyfforddiant ar gyfer yr holl staff.	Gwybodaeth yn cael ei gyflwyno mewn ffordd glir ac eglur.	Parhaus	Cyfathrebu effeithiol.

	<p>Sicrhau fod gan rieni, llywodraethwyr ac aelodau o'r cyhoedd fynediad llawn at wybodaeth a gyflwynir mewn cyfarfodydd, nosweithiau rheini a digwyddiadau.</p>	<p>Gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i rieni drwy'r Prosbectws, Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni.</p> <p>Gofynnir i rieni gysylltu gyda'r ysgol os ydynt angen unrhyw gyfleusterau arbennig wrth ddod i gyfarfodydd yn yr ysgol er mwyn cwrdd ag unrhyw anghenion penodol o'u hanabledd(e.e. BSL British sign Language) a/neu anghenion ieithyddol neu ddiwylliannol(e.e. Dehonglwr)</p>	<p>Gwybodaeth yn cael ei gyflwyno mewn ffordd glir ac eglur.</p>	<p>Parhaus</p>	<p>Cyfathrebu effeithiol</p>
--	--	---	--	----------------	------------------------------